Wheelabrator Parc Adfer
Portland House
Bressenden Place
London
SW1E 5BH
Tel.: +44 (0) 203 651 1520
Fax: +44 (0) 203 651 1521

Ref No: AAL-05-60-01

Project	Parc Adfer
Meeting Name and Number	**Community Liaison Group Meeting No. 001**
Date	09/03/2017
Time	18:00 – 20:00
Location	Town Council Offices, Quay Building, Fron Road, Connah's Quay, CH5 4PJ.
Attendees (alphabetically by organisation):	• Michael Redmond (MR), Chairman, Burton Residents' Association • Lisa Fearn (LF), Town Centre Manager, Connah's Quay • Steve Goodrum (SG), Clerk, Connah's Quay Town Council • Patricia Carlin (PC), Flintshire County Council, Deeside Business Forum • Colin Everett (CE), Chief Executive, Flintshire County Council (and Lead Chief Officer, North Wales Residual Waste Treatment Project) • Kevin Jones (KJ), Cabinet Member for Waste Strategy, Public Protection and Leisure, Flintshire County Council (and Vice Chair of the North Wales Residual Waste Treatment Project) • John Jones (JJ), Local resident • Lynne Williams (LW), Local resident • Paul Wright (PW), Industry Regulation Team Leader for North and Mid Wales, Natural Resources Wales • Steffan Owen (SO), Contract Manager, North Wales Residual Waste Treatment Project • Mike Walker (MW), Chairman, Sealand Community Council • Robert Dowey (RD), Shotton Town Council • Sean Bibby (SB), Shotton Town Council • David Evans (DE), Shotton Town Council (and representing Mark Tami MP) • Ian Zachary (IZ), Business Development Manager, Welsh Government • Apo Sarandidis (AS), Senior Project Manager, Wheelabrator Parc Adfer • David Spencer (DS), Communications Manager, Wheelabrator Parc Adfer • Toby Barker (TB), Communications Consultant, Wheelabrator Parc Adfer • Julian Harrison (JH), Project Director, Wheelabrator Parc Adfer (and acting

	Chairman of the Parc Adfer Community Liaison Group)
Apologies	Mark Tami MP Martin Fry (Toyota)
Distribution	Attendees

Item	Minute	Action
1	**Welcome and introductions – Julian Harrison**	
1.1	Julian Harrison (JH) welcomed everyone to the meeting, thanked Connah's Quay Town Council for hosting and asked attendees to introduce themselves.	
2	**Terms of reference**	
2.1	JH circulated a draft Terms of Reference for the CLG and invited members to provide feedback by email (info@parcadfer.com) following the meeting. Comments would be collated and a final version circulated to members at the next meeting.	JH
2.2	JH said that the role of a CLG was to help people understand the project, giving them an opportunity to ask questions and get answers. The meetings should therefore be conducted in an efficient, inclusive, open and friendly manner.	
2.3	JH confirmed he would act as interim Chair but, ultimately, it would be for the group to decide on a permanent chair.	
3	**Partnership Update**	
3.1	Colin Everett (CE) provided a brief update on the project, noting its regional importance, the bidding process, environmental benefits and contribution to recycling.	
3.2	CE explained FCC's focus on value for public investment and eligibility for a 25% Welsh Government subsidy, taking strain off public funds such as Council Tax.	
3.3	Steffan Owen (SO) gave a presentation describing the project, its scale and contribution to recycling, power production, contribution to employment, public ownership.	
3.4	A local community benefit fund will be available when the site is fully operational in late 2019. This will be of significant value to the local community (around £230k per annum, of which Parc Adfer will contribute £50k to the fund).	
3.5	FCC is looking at how to best use the local community fund for projects. It will be ring-fenced to the Deeside Partnership area.	
3.6	CE confirmed that consultation for the use of the local community fund would take place nearer to the time and that they already have some ideas.	

Item	Minute	Action
4	**Project progress and community update**	
4.1	DS gave a presentation covering Wheelabrator's UK & US operations, safety record and expected duration of construction and operations. The presentation also covered the construction contractors' roles (CNIM and Clugston).	
4.2	DS advised Wheelabrator Parc Adfer has held two 'meet the buyer' events in 2015 and 2016. There are already local firms working on site and supplying services. Opportunities for local businesses will continue when the facility is operational.	
4.3	A construction update was provided by Apo Sarandidis (AS). Construction commenced in January 2017. The expectation is to commence commissioning in the second quarter of 2019, which would entail processing of waste.	
5	**Question & Answer Session**	
5.1	**Q:** Patricia Carlin (PC) asked when the steam from the facility could be ready to be sold to local businesses. **A:** After the plant has become operational in 2019.	
5.2	**Q:** Robert Dowey (RD) asked about partnership working between the five councils and Welsh Government. Would Welsh Government be taking any money back out or are they happy just to fund the project and provide subsidies? **A:** CE confirmed Welsh Government would not take profits out of the project	
5.3	**Q:** Lisa Fearn (LF) asked if there will be any ongoing consultation with the community now that construction has started? **A:** DS said there would be ongoing community liaison and there would also be further community newsletters produced during construction and operation.	
5.4	**Q:** LF asked whether the main community benefit fund would be available during construction? **A:** DS explained that the local community benefit funding would be available once the facility entered operations. JH added that there is a smaller community benefit fund which will be made available during the construction period. This will be £50,000 over three years – also aimed at helping the community and local projects.	
5.5	**Q:** LF asked how the fund would be administered.	

Item	Minute	Action
	A: CE said responsibility for administering the fund has been given to Flintshire County Council, as the benefits should stay within Flintshire. The ways in which the fund would be administered will be advised nearer the time (start of operations). Suggestions can be made of how the funds are to be utilised.	
5.6	**Q:** LF asked whether she could access a list of the local suppliers and contractors working on site and noted that the Civic Hall would be a good venue to use for job fairs etc **A:** DS said a list could be provided to LF	
5.7	**Q:** David Evans (DE) asked how many jobs would be created when the plant becomes operational and how many of those would be locally-sourced? **A:** DS said there will be 30 to 40 permanent jobs. They will be advertised locally.	
5.8	**Q:** DE asked if the plant would be operating 24 hours a day? **A:** AS confirmed it would be operating 24 hours a day on a shift basis.	
5.9	**Q:** PC asked if the sale of steam from Parc Adfer would affect the value of the community benefit fund? **A:** CE said the fund is ring-fenced and that any monies generated by steam off-take would not affect the community fund. JH added that work is being conducted in this area. There is an obligation under the permit and contract for Parc Adfer to explore steam off-take and we are discussing this with local companies, industrial neighbours and Welsh Government.	
5.10	**Q:** Mike Walker (MW) asked why the waste steam could not be used to generate more electricity? **A:** AS explained the steam is not wasted as the facility operates on a closed loop system. Steam leaving the turbine is condensed and reused.	
5.11	**Q:** MW discussed the forthcoming Airfields development of around 1,100 homes and asked if the steam could be used to energise these local homes? **A:** CE said this was technically feasible but would require significant public subsidy to put the necessary infrastructure in place. Ian Zachary (IZ) added that the pipework would be substantial. Discussion continued around local steam use. MW suggested that Wheelabrator speak to the two developers. It was noted that steam cannot be transported very far, however there is ongoing discussion between steam producers and users on the technical issues.	
5.12	**Q:** MW asked whether Parc Adfer would follow the example of HMP Berwyn in	

Item	Minute	Action
	Wrexham and notify the workforce about the types of jobs and skills that would be in demand well ahead of recruitment starting? **A:** JH said that the comment was a useful suggestion and there would be two job fairs during construction and an additional one when the facility is closer to operations.	
5.13	**Q:** John Jones (JJ) asked what types of waste would be accepted to the facility and whether there was enough waste to maintain fuel supplies? **A:** SO said the facility would accept waste material that cannot be recycled or recyclables that had been contaminated. JH added that there was many times more waste than needed going to landfill in the region.	
5.14	**Q:** MW asked if landfill sites could be mined to provide fuel? **A:** AS explained that other facilities have attempted to process landfill waste and this has resulted in operational issues and a much higher degradation of the facility.	
5.15	**Q:** LF asked if the facility could ever become a financial burden when its ownership reverts after the 25 year contract period? **A:** CE said this would not be the case. There is the option for Parc Adfer to extend the contract by a further 5 years. The Project also has the option to tender operations to another supplier. Alternatively, the site itself and the plant / machinery all has significant value in terms of resale.	
5.16	**Q:** JJ asked how many lorry movements the plant would generate when it becomes operational and would deliveries be taken on a 24 hour basis? **A:** SO said there would be around 30 – 40 vehicles per day. Vehicles coming from outside of Flintshire would use pre-agreed access routes. AS added that the facility wouldn't normally accept deliveries over 24 hours and they were more likely to arrive during normal working hours.	
5.17	**Q:** RD asked about the capacity of the waste bunker and could the facility be expanded to increase the overall capacity? **A:** AS said the bunker could store enough waste for around 7 – 10 days. It would be more cost effective to build a new facility rather than try and expand the current design.	
5.18	**Q:** MW asked if rail could be used for transporting waste to the facility? **A:** Kevin Jones (KJ) said it was not currently financially viable for rail to be used	

Item	Minute	Action
5.19	**Q:** JJ asked again about the number of people required to operate the facility, likely shift patterns and the types of skills required? **A:** AS confirmed that there would be a total of 30 – 40 operational staff. A proportion of the staff would be on a two shift basis.	
5.20	**Q:** MW asked if people were employed for 8 hour shifts, could more people be employed? **A:** It was industry norm that 12 hour shifts are adopted and shift hours do not impact on the number of persons employed. Average weekly hours remain the same for a 12 hour or 8 hour shift.	
5.21	**Q:** Michael Redmond (MR) asked if there would be sufficient material delivered during certain times of the year (limited collections during holidays, for example) to enable the plant to keep running 24 hours a day, 7 days a week? **A:** AS said the bunker will be big enough to be able to store waste to accommodate fluctuations in waste deliveries.	
5.22	**Q:** MW asked about the costs of decommissioning? **A:** AS explained that on other decommissioned facilities this has been cost neutral due to the value of the recovered materials (metals, etc.). This is however subject to the level of restoration needed for the site.	
6	**Agreement of actions and date of next meeting**	
6.1	The next meeting will be held on Thursday 8 June 2017 at 18.00. The venue would remain the same – Connah's Quay Town Council Offices.	
6.2	JH said the presentations would be emailed to members	JH
6.3	DS would provide local supplier details to LF	DS
6.4	DS will also talk to the Ferrybridge 1 plant manager (an operational Wheelabrator energy recovery facility) regarding taking interested members of the Community Liaison Group and Town Council members on a site visit.	DS
6.5	Parc Adfer will present a progress update to the Deeside Business Forum – no date as yet but PC to advise	DS
6.6	DS will provide a notice to members when job fairs etc. are arranged, so that members can help to promote them within the wider community.	DS
6.7	Members of the group were asked to consider the draft terms of reference and	All

Item	Minute	Action
	feed back comments by email (info@parcadfer.com) ahead of the next meeting.	
7	**Any Other Business.**	
7.1	It was agreed that simultaneous translation services would not be required at future meetings.	
7.2	It was agreed that, while only one member of each organisation should attend future CLG meetings, organisations may change their representative.	
7.3	Meeting closed at 19.42.	

Wheelabrator Parc Adfer
Portland House
Bressenden Place
Llundain
SW1E 5BH
Ffôn: +44 (0) 203 651 1520
Ffacs: +44 (0) 203 651 1521

Cyfeirnod: AAL-05-60-01

Prosiect	Parc Adfer
Enw a rhif y cyfarfod	**Cyfarfod y Grŵp Cyswllt Cymunedol Rhif 001**
Dyddiad	09/03/2017
Amser	18:00 – 20:00
Lleoliad	Swyddfeydd y Cyngor Tref, Adeilad y Cei, Ffordd Fron, Cei Connah, CH5 4PJ.
Yn bresennol (yn nhrefn y wyddor, fesul sefydliad):	• Michael Redmond (MR), Cadeirydd, Cymdeithas Trigolion Burton • Lisa Fearn (LF), Rheolwr Canol y Dref, Cei Connah • Steve Goodrum (SG), Clerc, Cyngor Tref Cei Connah • Patricia Carlin (PC), Cyngor Sir y Fflint, Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy • Colin Everett (CE), Prif Weithredwr, Cyngor Sir y Fflint (a Phrif Swyddog Arweiniol, Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru) • Kevin Jones (KJ), Aelod Cabinet ar gyfer y Strategaeth Wastraff, Amddiffyn y Cyhoedd a Hamdden, Cyngor Sir y Fflint (ac Is-gadeirydd Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru) • John Jones (JJ), sy'n byw'n lleol • Lynne Williams (LW), sy'n byw'n lleol • Paul Wright (PW), Arweinydd Tîm Rheoleiddio Diwydiant Gogledd a Chanolbarth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru • Steffan Owen (SO), Rheolwr Contract, Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru • Mike Walker (MW), Cadeirydd, Cyngor Cymuned Sealand • Robert Dowey (RD), Cyngor Tref Shotton • Sean Bibby (SB), Cyngor Tref Shotton • David Evans (DE), Cyngor Tref Shotton (ac yn cynrychioli Mark Tami AS) • Ian Zachary (IZ), Rheolwr Datblygu Busnes, Llywodraeth Cymru • Apo Sarandidis (AS), Uwch-reolwr Prosiect, Wheelabrator Parc Adfer • David Spencer (DS), Rheolwr Cyfathrebu, Wheelabrator Parc Adfer • Toby Barker (TB), Ymgynghorydd Cyfathrebu, Wheelabrator Parc Adfer • Julian Harrison (JH), Cyfarwyddwr Prosiect, Wheelabrator Parc Adfer (a

	Chadeirydd gweithredol Grŵp Cyswllt Cymunedol Parc Adfer)
Ymddiheuriadau	Mark Tami AS Martin Fry (Toyota)
Dosbarthiad	Y rhai fu'n bresennol

Eitem	Cofnod	Gweithred
1	**Croeso a chyflwyniadau – Julian Harrison**	
1.1	Croesawodd Julian Harrison (JH) bawb i'r cyfarfod, gan ddiolch i Gyngor Tref Cei Connah am y croeso, a gofynnodd i bawb oedd yn bresennol eu cyflwyno eu hunain.	
2	**Cylch gorchwyl**	
2.1	Dosbarthodd JH Gylch Gorchwyl drafft ar gyfer y Grŵp a gwahodd yr aelodau i roi adborth ar ebost (info@parcadfer.com) wedi'r cyfarfod. Byddai'r sylwadau'n cael eu casglu ynghyd a fersiwn derfynol yn cael ei dosbarthu i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf.	JH
2.2	Dywedodd JH mai rôl y Grŵp oedd helpu pobl i ddeall y prosiect, gan roi cyfle iddynt ofyn cwestiynau a chael atebion. Felly dylid cynnal y cyfarfodydd mewn modd effeithlon, cynhwysol, agored a chyfeillgar.	
2.3	Cadarnhaodd JH y byddai'n gweithredu fel Cadeirydd dros dro ond, yn y pen draw, lle'r grŵp fyddai penderfynu ar gadeirydd parhaol.	
3	**Diweddariad gan y bartneriaeth**	
3.1	Rhoddodd Colin Everett (CE) ddiweddariad cryno ar y prosiect, gan nodi ei bwysigrwydd yn rhanbarthol, y broses o wneud ceisiadau, y buddiannau amgylcheddol a'r cyfraniad tuag at ailgylchu.	
3.2	Esboniodd CE ffocws FCC ar werth am fuddsoddiad cyhoeddus a chymhwysedd am gymhorthdal o 25% gan Lywodraeth Cymru, gan dynnu'r baich oddi ar arian cyhoeddus megis y Dreth Gyngor.	
3.3	Rhoddodd Steffan Owen (SO) gyflwyniad yn disgrifio'r prosiect, ei raddfa a'i gyfraniad tuag at ailgylchu, cynhyrchu pŵer, cyfraniad at gyflogaeth, a pherchnogaeth gyhoeddus.	
3.4	Bydd cronfa budd cymunedol leol ar gael pan fydd y safle'n gwbl weithredol yn niwedd 2019. Bydd hon o werth sylweddol i'r gymuned leol (tua £230k y flwyddyn, gyda Pharc Adfer yn cyfrannu £50k tuag at y gronfa).	
3.5	Mae FCC yn ystyried sut orau y gellir defnyddio'r gronfa gymunedol leol ar gyfer prosiectau. Bydd wedi'i neilltuo ar gyfer ardal Partneriaeth Glannau Dyfrdwy.	
3.6	Cadarnhaodd CE y byddai ymgynghoriad ar gyfer defnyddio'r gronfa gymunedol leol yn cael ei gynnal yn nes at yr amser a bod ganddynt rai	

Eitem	Cofnod	Gweithred
	syniadau eisoes.	
4	**Diweddariad ar gynnydd y prosiect a diweddariad i'r gymuned**	
4.1	Rhoddodd DS gyflwyniad ynghylch gwaith Wheelabrator yn y DU ac UDA, eu record o ran diogelwch a hyd disgwyliedig y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu. Roedd y cyflwyniad hefyd yn cwmpasu rolau'r contractwyr adeiladu (CNIM a Clugston).	
4.2	Nododd DS fod Wheelabrator Parc Adfer wedi cynnal dau ddigwyddiad 'cwrdd â'r prynwr' yn 2015 a 2016. Mae cwmnïau lleol eisoes yn gweithio ar y safle ac yn darparu gwasanaethau. Bydd y cyfleoedd i fusnesau lleol yn parhau pan fydd y cyfleuster yn weithredol.	
4.3	Rhoddwyd diweddariad adeiladu gan Apo Sarandidis (AS). Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Ionawr 2017. Disgwylir dechrau comisiynu yn ail chwarter 2019, a fyddai'n golygu prosesu gwastraff.	
5	**Sesiwn holi ac ateb**	
5.1	**C:** Gofynnodd Patricia Carlin (PC) pryd gallai'r stêm o'r cyfleuster fod yn barod i'w werthu i fusnesau lleol. **A:** Wedi i'r cyfleuster ddod yn weithredol yn 2019.	
5.2	**C:** Gofynnodd Robert Dowey (RD) ynghylch y gweithio mewn partneriaeth rhwng y pum cyngor a Llywodraeth Cymru. A fyddai Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw arian yn ôl allan o'r prosiect ynteu a ydynt yn fodlon ariannu'r prosiect a darparu cymorthdaliadau yn unig? **A:** Cadarnhaodd CE na fyddai Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw elw allan o'r prosiect.	
5.3	**C:** Gofynnodd Lisa Fearn (LF) a fydd unrhyw ymgynghori'n parhau â'r gymuned ac ystyried bod y gwaith adeiladu wedi dechrau bellach. **A:** Dywedodd DS y byddai'r cyswllt â'r gymuned yn parhau ac y byddai rhagor o gylchlythyron cymunedol yn cael eu cynhyrchu yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu.	
5.4	**C:** Gofynnodd LF a fyddai'r brif gronfa budd cymunedol ar gael yn ystod y cyfnod adeiladu. **A:** Esboniodd DS y byddai'r nawdd budd cymunedol lleol ar gael pan fyddai'r cyfleuster yn dechrau gweithredu. Ychwanegodd JH fod yna gronfa budd cymunedol lai a fydd ar gael yn ystod y cyfnod adeiladu. Bydd hon yn	

Eitem	Cofnod	Gweithred
	werth £50,000 dros dair blynedd – a'i nod hithau hefyd fydd helpu'r gymuned a phrosiectau lleol.	
5.5	**C:** Gofynnodd LF sut byddai'r gronfa'n cael ei gweinyddu. **A:** Dywedodd CE fod y cyfrifoldeb dros weinyddu'r gronfa wedi'i roi i Gyngor Sir y Fflint, gan y dylai'r buddiannau aros o fewn Sir y Fflint. Rhoddir gwybod yn nes at yr amser (dechrau'r cyfnod gweithredu) sut bydd y gronfa'n cael ei gweinyddu. Gellir gwneud awgrymiadau ynghylch sut gellid defnyddio'r arian.	
5.6	**C:** Gofynnodd LF a allai gael gafael ar restr o'r cyflenwyr a'r contractwyr lleol sy'n gweithio ar y safle a nododd y byddai'r Neuadd Ddinesig yn lle da i gynnal ffeiriau swyddi ac ati. **A:** Dywedodd DS y gellid rhoi rhestr i LF.	
5.7	**C:** Gofynnodd David Evans (DE) faint o swyddi fyddai'n cael eu creu pan ddaw'r safle'n weithredol a faint o'r rheini fyddai'n cael eu llenwi'n lleol. **A:** Dywedodd DS y bydd yna 30 i 40 o swyddi parhaol. Byddant yn cael eu hysbysebu'n lleol.	
5.8	**C:** Gofynnodd DE a fyddai'r cyfleuster yn gweithredu 24 awr y dydd. **A:** Cadarnhaodd AS y byddai'n gweithredu 24 awr y dydd ar sail shifftiau.	
5.9	**C:** Gofynnodd PC a fyddai gwerthu stêm o Barc Adfer yn effeithio ar werth y gronfa budd cymunedol. **A:** Dywedodd CE fod y gronfa wedi'i neilltuo ac na fyddai unrhyw arian a gaiff ei greu yn sgil gwerthu'r stêm ymlaen llaw yn effeithio ar y gronfa gymunedol. Ychwanegodd JH fod gwaith yn cael ei gynnal yn y maes hwn. Ceir rhwymedigaeth dan y drwydded a'r contract i Barc Adfer archwilio gwerthu stêm ymlaen llaw ac rydym yn trafod hyn â chwmnïau lleol, cymdogion diwydiannol a Llywodraeth Cymru.	
5.10	**C:** Gofynnodd Mike Walker (MW) pam na ellid defnyddio'r gwastraff stêm i gynhyrchu mwy o drydan. **A:** Esboniodd AS nad yw'r stêm yn cael ei wastraffu gan fod y cyfleuster yn gweithredu gan ddefnyddio system cylch caeedig. Bydd stêm sy'n gadael y tyrbein yn cael ei gyddwyso a'i ailddefnyddio.	

Eitem	Cofnod	Gweithred
5.11	**C:** Trafododd MW ddatblygiad arfaethedig Airfields o tua 1,100 o gartrefi a gofynnodd a ellid defnyddio'r stêm i ddarparu ynni i'r cartrefi lleol hyn. **A:** Dywedodd CE bod hyn yn bosibl yn dechnegol ond y byddai angen cymhorthdal cyhoeddus sylweddol i ddarparu'r seilwaith angenrheidiol. Ychwanegodd Ian Zachary (IZ) y byddai angen rhwydwaith helaeth o bibellau. Parhaodd y drafodaeth ynghylch defnyddio stêm yn lleol. Awgrymodd MW y dylai Wheelabrator siarad â'r ddau ddatblygwr. Nodwyd na ellir cludo stêm ymhell iawn, ond mae'r drafodaeth yn parhau rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr stêm ynghylch y materion technegol.	
5.12	**C:** Gofynnodd MW a fyddai Parc Adfer yn dilyn esiampl Carchar Berwyn yn Wrecsam ac yn rhoi gwybod i'r gweithlu pa fathau o swyddi a sgiliau y byddai galw amdanynt ymhell cyn i'r broses recriwtio gychwyn. **A:** Dywedodd JH fod y sylw'n un defnyddiol ac y byddai dwy ffair swyddi yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod adeiladu ac un ychwanegol pan fydd y cyfleuster yn nes at ddechrau gweithredu.	
5.13	**C:** Gofynnodd John Jones (JJ) pa fath o wastraff fyddai'n cael ei dderbyn yn y cyfleuster ac a oedd digon o wastraff i gynnal y cyflenwad tanwydd. **A:** Dywedodd SO y byddai'r cyfleuster yn derbyn deunydd gwastraff na ellir ei ailgylchu neu ddeunyddiau ailgylchadwy sydd wedi'u llygru. Ychwanegodd JH fod llawer mwy o wastraff nag sydd angen yn mynd i safleoedd tirlenwi yn y rhanbarth.	
5.14	**C:** Gofynnodd MW a ellid cloddio safleoedd tirlenwi i ddarparu tanwydd. **A:** Esboniodd AS fod cyfleusterau eraill wedi ceisio prosesu gwastraff tirlenwi a bod hyn wedi arwain at ystyriaethau gweithredol ac wedi diraddio'r cyfleuster ar lefel lawer uwch.	
5.15	**C:** Gofynnodd LF a allai'r cyfleuster ddod yn faich ariannol pan fydd ei berchnogaeth yn dychwelyd wedi diwedd y cyfnod contract o 25 mlynedd. **A:** Dywedodd CE na fyddai hyn yn digwydd. Ceir opsiwn i Barc Adfer ymestyn 5 mlynedd arall ar y contract. Mae gan y Prosiect hefyd opsiwn i dendro'r gweithrediadau i gyflenwr arall. Fel arall, mae gan y safle ei hun a'r cyfleuster / peirianwaith oll werth sylweddol o ran ailwerthu.	
5.16	**C:** Gofynnodd JJ faint o symudiadau lorïau y byddai'r safle'n eu cynhyrchu pan ddaw'n weithredol ac a fyddid yn derbyn cyflenwadau 24 awr y dydd. **A:** Dywedodd SO y byddai yna tua 30 – 40 cerbyd bob dydd. Byddai cerbydau o'r tu allan i Sir y Fflint yn defnyddio llwybrau mynediad y	

Eitem	Cofnod	Gweithred
	cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Ychwanegodd AS na fyddai'r cyfleuster yn derbyn cyflenwadau 24 awr y dydd fel arfer a'u bod yn fwy tebygol o gyrraedd yn ystod oriau gwaith arferol.	
5.17	**C:** Gofynnodd RD am gapasiti'r byncer gwastraff ac a ellid ehangu'r cyfleuster er mwyn cynyddu cyfanswm y capasiti. **A:** Dywedodd AS y gallai'r byncer storio digon o wastraff ar gyfer tua 7 – 10 diwrnod. Byddai'n fwy cost-effeithiol adeiladu cyfleuster newydd na cheisio ehangu'r cynllun presennol.	
5.18	**C:** Gofynnodd MW a ellid defnyddio'r rheilffordd i gludo gwastraff i'r cyfleuster. **A:** Dywedodd Kevin Jones (KJ) nad oedd hi'n ymarferol yn ariannol ar hyn o bryd i ddefnyddio'r rheilffordd.	
5.19	**C:** Gofynnodd JJ eto am y nifer o bobl y byddai eu hangen i redeg y safle, y patrymau shifft tebygol a'r mathau o sgiliau fyddai'n ofynnol. **A:** Cadarnhaodd AS y byddai yna gyfanswm o 30 – 40 o staff gweithredol. Byddai cyfran o'r staff yn gweithio ar sail dwy shifft.	
5.20	**C:** Gofynnodd MW, pe byddai pobl yn cael eu cyflogi ar shifftiau 8 awr, a ellid cyflogi mwy o bobl. **A:** Y norm yn y diwydiant yw defnyddio shifftiau 12 awr ac nid yw oriau shifft yn effeithio ar nifer y bobl a gyflogir. Erys yr oriau wythnosol cyfartalog yr un fath ar gyfer shifft 12 awr ac 8 awr.	
5.21	**C:** Gofynnodd Michael Redmond (MR) a fyddai digon o ddeunydd yn cael ei dderbyn ar rai adegau o'r flwyddyn (casgliadau cyfyngedig yn ystod gwyliau, er enghraifft) i alluogi'r cyfleuster i ddal ati i redeg 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. **A:** Dywedodd AS y bydd y byncer yn ddigon mawr i allu storio gwastraff er mwyn darparu ar gyfer amrywiadau o ran derbyniadau gwastraff.	
5.22	**C:** Gofynnodd MW am gostau datgomisiynu. **A:** Esboniodd AS, mewn cyfleusterau eraill sydd wedi'u datgomisiynu, fod hyn wedi bod yn niwtral o ran cost yn sgil gwerth y deunyddiau a gafodd eu hadfer (metelau ac ati). Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar lefel y gwaith adfer y bydd ei angen ar y safle.	

Eitem	Cofnod	Gweithred
6	**Cytuno ar weithredoedd a dyddiad y cyfarfod nesaf**	
6.1	Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau 8 Mehefin 2017 am 18.00. Bydd y lleoliad yn aros yr un fath – Swyddfeydd Cyngor Tref Cei Connah.	
6.2	Dywedodd JH y byddai'r cyflwyniadau yn cael eu hanfon ar ebost i'r aelodau.	JH
6.3	Byddai DS yn darparu manylion cyflenwyr lleol i LF.	DS
6.4	Bydd DS hefyd yn siarad â rheolwr safle Ferrybridge 1 (cyfleuster adfer ynni Wheelabrator sydd eisoes yn weithredol) ynghylch mynd ag aelodau o'r Grŵp Cyswllt Cymunedol a'r Cyngor Tref sydd â diddordeb ar ymweliad â'r safle.	DS
6.5	Bydd Parc Adfer yn cyflwyno diweddariad ar gynnydd i Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy – nid oes dyddiad wedi'i bennu eto ond bydd PC yn rhoi gwybod.	DS
6.6	Bydd DS yn rhoi gwybod i aelodau pan fydd ffeiriau swyddi ac ati yn cael eu trefnu, fel y gall yr aelodau helpu i'w hyrwyddo yn y gymuned yn ehangach.	DS
6.7	Gofynnwyd i aelodau'r grŵp ystyried y cylch gorchwyl drafft a rhoi sylwadau ar ebost (info@parcadfer.com) cyn y cyfarfod nesaf.	Pawb
7	**Unrhyw faterion eraill**	
7.1	Cytunwyd na fyddai angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.	
7.2	Cytunwyd, er mai dim ond un aelod o bob sefydliad ddylai fynychu cyfarfodydd y Grŵp yn y dyfodol, y gall cyrff newid eu cynrychiolydd.	
7.3	Daeth y cyfarfod i ben am 19.42.	